Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Adroddiad i'r Cynulliad

1. Cyflwyniad

1.1 Un o bedwar Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad yw Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd. Mae'r rhanbarth yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Wrecsam ac ardaloedd Arfon a Dwyfor yng Ngwynedd.

1.2 Rhwng mis Gorffennaf 2001 a mis Gorffennaf 2002 bu Eleanor Burnham yn cadeirio'r Pwyllgor. Aelodau eraill y Pwyllgor yw Alison Halford, Ann Jones, Gareth Jones, John Marek, Tom Middlehurst, Alun Pugh, Rod Richards, Peter Rogers, Janet Ryder, Karen Sinclair, Dafydd Wigley ac Ieuan Wyn Jones. Mae'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor ond nid yw'n mynd i gyfarfodydd yn rhinwedd ei rôl fel Llywydd.

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor 5 gwaith rhwng mis Gorffennaf 2001 a mis Gorffennaf 2002. Mae manylion dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd, ynghyd â'r materion a drafodwyd a'r camau a gymerwyd, yn **Atodiad 1** .

2. Cylch Gorchwyl a Dull Gwaith

2.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 10.2, rôl y pwyllgorau rhanbarth yw rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, am effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny, ac am y gwaith y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud yn y rhanbarthau.

2.2 Mae'r Pwyllgor wedi parhau â'r dulliau gwaith a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol. Trefnir cyfarfodydd ar sail un thema benodol a rhoddir pwyslais ar sicrhau bod y cyhoedd yn rhan o'r drafodaeth.

2.3 Gan fod Prif Weinidog Cymru yn gyfrifol am gydlynu polisi'r Gogledd, mae'r Pwyllgor wedi estyn gwahoddiad sefydlog iddo ddod i'w gyfarfodydd. Daeth Prif Weinidog Cymru i'r cyfarfodydd yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Cyffordd Llandudno a Gresffordd. Neilltuwyd rhan sylweddol o'r cyfarfodydd hynny ar gyfer sesiwn holi ac ateb rhwng y Prif Weinidog ac aelodau'r cyhoedd.

2.4 Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod ei waith yn cael ei fwydo yn ôl i waith ehangach y Cynulliad. Yn gyffredinol, yn sgil pob cyfarfod, mae'r Cadeirydd yn crynhoi'r materion a godwyd mewn llythyr at y Gweinidog perthnasol neu at Gadeirydd y pwyllgor pwnc perthnasol. Ar ddechrau'r cyfarfod nesaf, rhoddir adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar unrhyw ymateb neu ganlyniad a gafwyd.

2.5 Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyfrannodd y Pwyllgor at yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y cynlluniau ar gyfer Strategaeth Henoed Cymru. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol yn amlinellu'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth. Cafodd y rheini eu bwydo i'r broses ymgynghori a oedd yn sail i'r Strategaeth derfynol. Yn ogystal, cyfrannodd y Pwyllgor ddwywaith at adolygiadau ffurfiol y mae pwyllgorau pwnc yn eu cynnal i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu polisi. Rhoddwyd ystyriaeth yn y naill gyfarfod i Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg, ac yn y llall i Adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o ynni adnewyddadwy. Anfonwyd crynodebau o'r materion a godwyd at Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc priodol fel rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth.

2.6 Mae'r Pwyllgor yn dal i ymrwymo i weithio mewn ffordd gynhwysol ac mae wedi ceisio cwrdd mewn lleoliadau llai a gwledig i alluogi pobl leol i feithrin cysylltiad â'r Cynulliad. Daeth nifer cyson o'r cyhoedd i'r cyfarfodydd gydol y flwyddyn. Cafwyd cynulleidfa o 100 ar gyfartaledd a daeth bron i 200 o bobl i'r cyfarfod yng Nghyffordd Llandudno. Mae'r Pwyllgor yn dal i edrych am ffyrdd o wella'r trefniadau cyhoeddusrwydd i beri bod mwy o gymunedau ledled y rhanbarth yn gwybod am y cyfarfodydd ac i annog mwy o bobl i ddod iddynt.

2.7 Yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol y Pwyllgor, trefnwyd tair sesiwn friffio anffurfiol. Yn gyntaf, cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor ag Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru i drafod dyfodol cyllido iechyd yn y rhanbarth. Yn ail, cyfarfu'r Aelodau ag Awdurdod Heddlu'r Gogledd i drafod opsiynau cyllido ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn olaf, cyfarfu'r Pwyllgor â Fforwm Economaidd Gogledd Cymru i ystyried trydaneiddio prif reilffordd y Gogledd a datblygu'r sector aerofod a'r isadeiledd TGCh yn y rhanbarth.

3. Blaenraglen

3.1 Bydd y Cadeirydd newydd, gan ymgynghori â'r Aelodau, yn rhoi ar waith argymhellion yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad o ran pwyllgorau rhanbarth ac yn paratoi rhaglen i sicrhau bod y Pwyllgor yn gyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chymunedau lleol yn y rhanbarth.

Eleanor Burnham
Mai 2002

Dyddiad	Lleoliad	Pwnc	Camau a gymerwyd
26 Hydref 2001	Neuadd Gyhoeddus, Llanrhaeadr-ym-Mochnant	Strategaeth Henoed Cymru	Llythyr at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu'r materion a godwyd wrth drafod.
30 Tachwedd 2001	Y Ganolfan, Llandrillo, Sir Ddinbych	Yr Adolygiad o'r Iaith Gymraeg	Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant yn amlinellu'r materion a godwyd wrth drafod.
25 Ionawr 2002	Y Ganolfan Gymunedol, Llanfairfechan	Datblygu economaidd a chyflogaeth, gan gynnwys cyflwyniadau oddi wrth Awdurdod Datblygu Cymru, Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, y Grwp Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau, y Grwp Busnes, ac ELWa.	Llythyr at Brif Weinidog Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn amgáu cofnodion y cyfarfod.
15 Mawrth 2002	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	Materion yn ymwneud â'r anabl, gan gynnwys cyflwyniadau oddi wrth y Comisiwn Hawliau Anabledd ac Anabledd Cymru	Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn amgáu cofnodion y cyfarfod. Llythyr at Gadeirydd Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol yn awgrymu y dylid trafod darparu mynediad a chyfleusterau i bobl anabl yn adeiladau awdurdodau lleol yn un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol. Llythyr at Fwrdd Cynghori Consignia Cymru yn gofyn am sicrwydd y bydd gwasanaethau post rhatach

			i'r deillion yn parhau ac y bydd llenyddiaeth yn dal i gael ei dosbarthu yn rhad ac am ddim. Llythyr at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynegi pryder ynghylch diffyg cyfleusterau i roi triniaeth i'r rhai sy'n dioddef osteoporosis yn yr ardal. Cytunodd Prif Weinidog Cymru i ysgrifennu at yr aelodau hynny o'r cyhoedd a gododd bwyntiau penodol wrth drafod.
24 Mai 2002	Neuadd Goffa Newydd, Gresffordd	Ynni Adnewyddadwy	Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn amgáu cofnodion y cyfarfod.